***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 101

# Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Gweinyddu) (Cymru) 2018

## RHAN 2

## CYMYSGEDDAU O DDEUNYDDIAU SY'N GYFAN GWBL AR FFURF GRONYNNAU MÂN

*Cyffredinol*

**Dehongli'r Rhan hon**

**3.** Yn y Rhan hon—

ystyr "cyfarwyddyd" ("*direction*") yw cyfarwyddyd a ddyroddwyd gan ACC o dan reoliad 6 nas tynnwyd yn ôl;

ystyr "deunydd anghymwys" ("*non-qualifying material*") yw deunydd nad yw'n ddeunydd cymwys;

ystyr "y ganran colled wrth danio" ("*LOI percentage*") yw swm y deunydd anghymwys sydd wedi ei gynnwys mewn cymysgedd o ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân, fel y dangosir gan y ganran o fàs y gronynnau mân hynny a gollir wrth danio;

ystyr "yr hysbysiad ACC" ("*the WRA notice*") yw hysbysiad a gyhoeddwyd gan ACC o dan adran 17(5) o DTGT nas tynnwyd yn ôl drwy hysbysiad cyhoeddedig dilynol;

ystyr "prawf colled wrth danio" ("*LOI test*") yw prawf i ganfod canran colled wrth danio cymysgedd o ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân.

**Gofynion mewn cysylltiad â chymysgedd o ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân**

**4.**—(1) Rhaid bodloni'r gofynion a ganlyn (yn ogystal â gofynion 1 i 6 yn adran 16 o DTGT) er mwyn i gymysgedd o ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân gael ei drin fel cymysgedd cymwys o ddeunyddiau.

*Gofyniad 1*

Rhaid i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig lle y gwneir gwarediad trethadwy o'r cymysgedd fod wedi cymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad ACC.

*Gofyniad 2*

Rhaid i'r gweithredwr feddu ar y dystiolaeth a bennir yn yr hysbysiad ACC ynghylch cymryd y camau hynny.

*Gofyniad 3*

Os cynhaliwyd prawf colled wrth danio ar sampl o'r gwarediad trethadwy, ni chaiff y ganran colled wrth danio a ddangoswyd gan y prawf fod yn uwch na 10% (ond gweler paragraff (3)).

*Gofyniad 4*

Ni chaiff y cymysgedd sydd wedi ei gynnwys yn y gwarediad trethadwy fod wedi'i wahardd rhag cael ei drin fel cymysgedd cymwys o ddeunyddiau yn rhinwedd rheoliad 5(3).

(2) Caiff ACC benderfynu bod gofyniad 2 i'w drin fel pe bai wedi ei fodloni os yw ACC wedi ei fodloni bod unrhyw ffeithiau y mae'n ei gwneud yn rhesymol ofynnol iddynt gael eu profi, ac a fyddai wedi eu profi gan y dystiolaeth pe bai'r gofyniad hwnnw wedi ei fodloni, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.

(3) Caiff yr hysbysiad ACC bennu amgylchiadau lle caniateir anwybyddu prawf colled wrth danio sy'n dangos bod y ganran colled wrth danio yn uwch na 10%.

**Gofynion cyffredinol mewn cysylltiad â phrofion colled wrth danio**

**5.**—(1) Rhaid i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig gydymffurfio â'r gofynion a ganlyn er mwyn i gymysgeddau o ddeunyddiau sy'n gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân gael eu trin fel cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau pan fyddant yn cael eu gwaredu ar y safle.

*Gofyniad 1*

Rhaid i'r gweithredwr gynnal prawf colled wrth danio ar y cymysgeddau—

(a) ar yr adegau a'r cyfnodau a bennir yn yr hysbysiad ACC, oni roddir cyfarwyddyd i'r gweithredwr wneud fel arall o dan reoliad 6, neu

(b) os rhoddir cyfarwyddyd o'r fath i'r gweithredwr, ar yr adegau a'r cyfnodau a bennir yn y cyfarwyddyd.

*Gofyniad 2*

Rhaid i'r gweithredwr, wrth gynnal pob prawf colled wrth danio—

(a) cynhesu sampl o'r cymysgedd a brofir i dymheredd o 440°C am o leiaf 5 awr, a

(b) cydymffurfio ag unrhyw ofyniad arall yn yr hysbysiad ACC sy'n ymwneud â chynnal y prawf.

*Gofyniad 3*

Pan fo—

(a) prawf colled wrth danio yn cael ei gynnal ar sampl o gymysgedd, a

(b) y ganran colled wrth danio a ddangosir gan y prawf yn uwch na 10%,

rhaid i'r gweithredwr gymryd y camau a bennir yn yr hysbysiad ACC.

*Gofyniad 4*

Rhaid i'r gweithredwr—

(a) cadw'r dystiolaeth a bennir yn yr hysbysiad ACC mewn perthynas â phob prawf colled wrth danio a gynhelir gan y gweithredwr, a

(b) storio'r dystiolaeth yn ddiogel am y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Caiff ACC benderfynu bod y gweithredwr i'w drin fel pe bai wedi cydymffurfio â gofyniad 4 os yw ACC wedi ei fodloni bod unrhyw ffeithiau y mae'n ei gwneud yn rhesymol ofynnol iddynt gael eu profi, ac a fyddai wedi eu profi gan y dystiolaeth pe bai'r gweithredwr wedi cydymffurfio â'r gofynion, yn cael eu profi gan dystiolaeth ddogfennol arall a ddarperir iddo.

(3) Pan fo'r gweithredwr yn methu â chydymffurfio â gofyniad a grybwyllir ym mharagraff (1), mae cymysgeddau o ronynnau mân sydd wedi eu cynnwys mewn gwarediadau trethadwy o ddisgrifiad a bennir yn yr hysbysiad ACC wedi eu gwahardd rhag cael eu trin fel cymysgeddau cymwys o ddeunyddiau.

**Pŵer ACC i roi cyfarwyddyd i weithredwr gynnal profion colled wrth danio**

**6.**—(1) Caiff ACC drwy hysbysiad roi cyfarwyddyd i weithredwr safle tirlenwi awdurdodedig gynnal prawf colled wrth danio ar unrhyw gymysgedd o ddeunyddiau—

(a) yr ymddengys i ACC ei fod yn gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân,

(b) sydd o ddisgrifiad a bennir yn y cyfarwyddyd, ac

(c) sy'n bresennol ar y safle.

(2) Caniateir amrywio cyfarwyddyd a roddwyd o dan y rheoliad hwn neu ei dynnu'n ôl drwy hysbysiad ar unrhyw adeg.

**Pŵer ACC i gymryd samplau a chynnal profion colled wrth danio**

**7.**—(1) Caiff ACC—

(a) cymryd sampl o unrhyw gymysgedd o ddeunyddiau ar safle tirlenwi awdurdodedig yr ymddengys i ACC ei fod yn gyfan gwbl ar ffurf gronynnau mân, a

(b) cynnal prawf colled wrth danio ar y sampl.

(2) Pan fo ACC yn gwneud hynny, rhaid iddo—

(a) cynnal y prawf drwy gynhesu is-sampl o'r sampl i dymheredd o 440°C am o leiaf 5 awr,

(b) dyroddi hysbysiad am y ganran colled wrth danio a ganfyddir gan y prawf i weithredwr y safle,

(c) cadw—

(i) nid llai nag 1kg o'r sampl, a

(ii) cofnod o ganlyniad y prawf colled wrth danio,

(d) storio'r gyfran a gedwir o'r sampl yn ddiogel am gyfnod o 3 mis sy'n dechrau â dyddiad ffeilio'r ffurflen dreth berthnasol, ac

(e) storio'r cofnod o ganlyniad y prawf colled wrth danio yn ddiogel am y cyfnod y byddai'n ofynnol i berson y mae'n ofynnol iddo ddychwelyd ffurflen dreth ei gadw o dan adran 38 o DCRhT (dyletswydd i gadw cofnodion a'u storio'n ddiogel).

(3) Ym mharagraff (2)(d), y "ffurflen dreth berthnasol" yw'r ffurflen dreth ar gyfer y cyfnod cyfrifyddu y rhoddir cyfrif arni am y dreth sydd i'w chodi am waredu'r cymysgedd.